**Lesley Griffiths AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig**
**Cabinet Secretary for Environment and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-P/LG/3233/17
Mike Hedges AC
Cadeirydd – Pwyllgor Newid Hinsawdd,
Amgylchedd a Materion Gweledig
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Caerdydd
CF99 1NA

SeneddCCERA@assembly.wales

10 Hydref 2017

Annwyl Mike

Pan fynychais gyfarfod y Pwyllgor ar 20 Gorffennaf, cytunais y byddwn yn ysgrifennu atoch ynghylch papur Panel Asesu'r DU o Gomisiwn y Byd ar Ardaloedd Gwarchodedig yr Undeb Rhyngwladol dros Gadwraeth Natur (IUCN) ar adroddiad '*Tirweddau'r Dyfodol: Cyflawni Dros Gymru*', sef y papur y cyfeiriodd Simon Thomas AC ato.

Mae'r IUCN yn y DU wedi cadarnhau statws y papur hwn fel barn ystyriol gan aelodau o Banel Asesu'r DU, i'w ddefnyddio fel nodyn cynghori neu bapur briffio fel sy'n ofynnol.

Os gweithredir argymhellion adroddiad Tirweddau'r Dyfodol, daw'r papur i'r casgliad "y byddai'n ei gwneud yn amhosibl i'r Panel barhau i argymell cydnabyddiaeth ryngwladol i Barciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol fel 'ardaloedd gwarchodedig'". Mae'r papur wedi canolbwyntio bron yn llwyr ar ddiffyg cyfeirio at yr egwyddor Sandford, neu egwyddor cyffelyb ar gadwraeth natur, i ategu'r casgliad hwn. Maent yn honni y byddai Tirweddau'r Dyfiodol Cymru, heb ymrwymiad fwy eglur i ddiogelu cadwraeth natur, yn arwain at ostyngiad yn y warchodaeth a roddir i natur gan ddynodiad Parc Cenedlaethol neu Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE). O ganlyniad ni fyddai'r dynodiadau yn bodloni diffiniad yr IUCN o ardal warchodedig.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Gallaf gadarnhau yn bendant na fyddaf yn cyflwyno unrhyw gynigion ar gyfer diwygio a fyddai'n bygwth rhinweddau arbennig ac harddwch naturiol AHNE a Pharciau Cenedlaethol Cymru. Dyma fydd fy safbwynt pan fyddaf yn ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad '*Bwrw ymlaen â rheoli adnoddau naturiol Cymru yn gynaliadwy*' a phan fyddaf yn pennu fy mlaenoriaethau ar gyfer y meysydd hyn. Rwyf wedi gwneud ymrwymiad o'r fath yn rheolaidd, ond rwy'n awyddus i gadarnhau hyn eto.

Fe wnaf ddatganiad llawn ar y ffordd ymlaen o ran tirweddau dynodedig unwaith y byddaf wedi adolygu'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad presennol, sy'n cynnwys agweddau ar gynigion Tirweddau'r Dyfodol. Mae IUCN y DU wedi eu hannog i ymateb.

Fodd bynnag, rwy'n awyddus i bwysleisio ei bod hi'n bwysig gwerthfawrogi'r cyd-destun deddfwriaethol presennol ar gyfer tirweddau dynodedig yng Nghymru. Mae dadansoddiad y Panel o Dirweddau'r Dyfodol yn ymddangos yn gyfyngedig o gymharu ei gynnig gyda'u harfarniad o Barciau Cenedlaethol ac AHNE ar gyfer adroddiad *Putting Nature on the Map* yn 2014. Nid oes unrhyw gyfeiriad at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, sy'n golygu bod y Parciau Cenedlaethol ac AHNE yng Nghymru bellach yn gweithredu mewn cyd-destun gwahanol iawn. Mae'r cyd-destun hwn yn rhoi lles a rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn ganolog i'r hyn a wnânt ac ni ellir deall cynnig Tirweddau'r Dyfodol yn iawn heb gyfeirio at y cyd-destun newydd.

Nid yw'r rhesymeg dros sefydlu Parciau Cenedlaethol ac AHNE yng Nghymru a Lloegr, a'u dibenion statudol cysylltiedig, yn deillio o ffocws yr IUCN ar gadwraeth natur a'r diffiniad cysylltiedig o ardaloedd gwarchodedig. Mae'r dynodiadau yn deillio o ddymuniad i ddiogelu harddwch naturiol yr ardaloedd hyn ac, yn achos y Parciau Cenedlaethol, y cyfle i hyrwyddo'r mwynhad ohonynt. Mae hyn yn cynnwys eu gwerth o ran cadwraeth natur, ond nid yw'n gyfyngedig i hynny. Felly, wrth gymhwyso meini prawf sydd â phwyslais penodol mae'n anochel y bydd angen dyfarniad ar y dehongliad a'r pwysau a gaiff eu cymhwyso at ddiben ac effeithiolrwydd y dynodiad sydd o dan sylw. Bydd hyn hefyd yn effeithio ar unrhyw awgrymiadau neu gynigion i ystyried newidiadau i ddibenion y dynodiad.

Felly, er y croesawaf y gydnabyddiaeth bresennol gan yr IUCN i'r Parciau ac ANHE, credaf hefyd y dylai fod yn ystyriaeth yn unig yn hytrach na'r prif nod wrth benderfynu sut y dylai Cymru ddiogelu ei thirweddau.

Mae Tirweddau'r Dyfodol wedi rhoi cyfle i'r holl bartneriaid ailddatgan pwysigrwydd tirweddau Cymru, lle y dylai diogelu nodweddion arbennig tirwedd fod yn hollbwysig wrth wneud penderfyniadau. Yr wyf yn cydnabod yr achos am well eglurhad o ran safbwynt Llywodraeth Cymru ar y materion hyn. Yr wyf yn bwriadu mynd i'r afael â hyn pan fyddaf yn gwneud datganiad yn ymateb i'r ymgynghoriad.

Yn gywir

Lesley

**Lesley Griffiths AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig
Cabinet Secretary for Environment and Rural Affairs